Catherine Booth 1829–1890

Efengylydd, awdur, sylfaenydd Byddin yr Iachawdwriaeth ac hyrwyddwr hawliau merched

Ganwyd Catherine Booth ar 17 Ionawr 1829 yn Ashbourne, Swydd Derby, yn bedwerydd o bum plentyn. Roedd ei thad, John Mumford, yn saer olwynion ac yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Wesleaidd. Addysgwyd hi gartref gan ei mam ac yn fuan daeth i rannu ffydd ei rhieni. Erbyn iddi gyrraedd deuddeg oed roedd hi eisoes wedi darllen y Beibl yn ei gyfanrwydd yn ogystal â rhai o weithiau John Wesley, John William Fletcher a Charles Finney. Gwrthgiliodd ei thad gan adael y Methodistiaid a dechrau yfed yn drwm. Golygai hyn nad oedd yn derbyn unrhyw gyflog cyson.

Ym 1845 symudodd y teulu i Brixton, Llundain, ac ymaelododd Catherine yn yr eglwys Wesleaidd. Dechreuodd fynychu oedfaon gyda chriw mwy Efengylaidd ac yno y daeth ar draws gŵr ifanc o'r enw William Booth. Dyweddïasant ym 1852. Rhwng 1852 a 1855 bu Catherine yn byw gyda'i mam ac yn dysgu yn yr Ysgol Sul. Yn y cyfnod hwn bu hefyd yn darllen llawer ac yn cynorthwyo ei mam gyda lletywyr. Ar 16 Mehefin 1855 priododd William yn Stockwell New Chapel, Llundain. Wedi hynny am gyfnod o ddwy flynedd gweithiodd William Booth fel efengylydd crwydrol i'r Methodist New Connexion. Roedd gan William a Catherine ddiddordeb mawr mewn efengylu mewn dull tebyg i'r Americanwyr James Caughey a Charles Finney. Ym 1857 penodwyd William Booth i'w gylchdaith gyntaf gyda'r Methodist New Connexion yn Brighouse, Swydd Efrog, ac yna ym 1858 ymsefydlasant yn Gateshead. Erbyn 1860 roedd ganddynt bedwar o blant a chyhoeddodd Catherine bamffled am weinidogaeth merched a dechreuodd bregethu. Yn yr un cyfnod ysgrifennodd y Parch A. A. Rees bamffled, *Reasons for not Cooperating in the Alleged 'Sunderland Revivals'.* Yn hwn dywedai nad oedd hawl gan ferched i siarad heb sôn am arwain yn gyhoeddus. Ymatebodd Catherine gyda'r *Female teaching, or, The Rev. A. A. Rees versus Mrs Palmer, being a reply to the above gentleman on the Sunderland revival.* Yn hwn dadleuodd yn ddeheuig dros hawliau merched i bregethu, siarad

ac arwain mewn eglwysi. Roedd ei dysgeidiaeth yn arloesol yn y cyfnod hwnnw.

Diwygiwyd ac argraffwyd ei gwaith ym 1870 gan Fyddin yr Iachawdwriaeth o dan y teitl *Female Ministry, or, Women's Right to Preach the Gospel*. Ym 1857 dechreuodd siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd dirwestol i ferched. Pan aeth ei gŵr yn sâl ym 1860, cymerodd ei le yn y pulpud. Ym 1861 gadawsant y Methodistiaid gan eu bod am barhau fel efengylwyr crwydrol tra oedd y Methodistiaid yn awyddus iddynt aros mewn cylchdaith. Buont yng Nghernyw, Cymru, canolbarth a gogledd Lloegr yn cynnal cyfarfodydd diwygiadol yn ystod y pedair blynedd ddilynol. Daeth Catherine yn bregethwr annibynnol amlwg a phoblogaidd a dderbyniai lawer o wahoddiadau i siarad. Ymsefydlasant yn yr East End Llundain ac ym 1865 cychwynasant yr East London Christian Mission. Tyfodd y gwaith yn raddol. Mabwysiadodd y genhadaeth hon strwythur tebyg i'r Methodistiaid. Gweithredodd Catherine Booth ar lawer o bwyllgorau a phregethai'n gyson. Ym 1878 newidiodd y mudiad ei strwythur, gan fabwysiadu'r enw Salvation Army. Erbyn 1879 roedd ganddynt 81 gorsaf genhadol yn Lloegr a Chymru a 127 o efengylwyr. Mabwysiadwyd lifrai, rhengoedd ac ieithwedd filitaraidd. Nid oedd gan Catherine unrhyw deitl swyddogol ond fe'i gelwid yn Fam y Fyddin. Gwelwyd ei dylanwad hi ar ddiwinyddiaeth a gweithrediad y Fyddin, yn enwedig mewn perthynas â merched. Roedd sancteiddrwydd yn waelodol i ddiwinyddiaeth y Fyddin ac ysgrifennodd hi yn eang ar yr athrawiaeth. Trwy'r athrawiaeth hon gallai merched a dynion ddod yn arweinyddion. Roedd amlygrwydd Catherine a merched eraill yn un o'r gwahaniaethau mawr rhwng y Fyddin ac enwadau eraill yn oes Fictoria. Mynnai llawer o Gristnogion nad oedd merched i fod i bregethu ac mai mater o gywilydd oedd i fam ymddangos yn gyhoeddus gan annog merched eraill i wneud yr un modd.

Cyhoeddodd Catherine Booth amryw o lyfrau yn cynnwys *Practical Religion* (1878), *Aggressive Christianity* (1880) a *Holiness* (1881), a gweithiodd hefyd gyda mudiadau diwygio cymdeithasol. Bu farw o ganlyniad i gancr y fron ym 1890 yn Clacton. Roedd dros 30,000 o bobl ar strydoedd Llundain yn gwylio'r orymdaith angladdol ar 14 Hydref. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Abney Park, Llundain.